# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M. Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W T Hughes a Nicola Roberts |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ddiddordeb yn eitemau 3 a 3.4(ch) yn yr adroddiad a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**3. PENODI PRIF WEITHREDWR AC AIL-STRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr 2014 ar gais Arweinydd y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i restru gostyngiad yng nghapasiti rheolaeth lefel uwch y Cyngor ymysg yr arbedion effeithlonrwydd hynny a gafodd eu cynnwys yn y pecyn o gynigion ar gyfer cyllideb 2015/16.

Nodwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi argymell opsiwn 4 i'r Cyngor Sir fel yr un a ffefrir i gyflawni'r amcanion ac fel un y gellir ei weithredu, gyda golwg ar gomisiynu gwaith manylach i ddatblygu'r opsiwn ar gyfer ymgynghoriad gyda staff. Gofynnir i'r Pwyllgor Penodi weithredu'r broses recriwtio ar gyfer yr ailstrwythuro ac ystyried y strwythur tâl.

Mewn perthynas â'r Pwyllgor Penodi, roedd y Cynghorydd A.M. Jones yn dymuno nodi bod gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol ond nid o bob plaid wleidyddol.

Rhoddodd Aelodau'r Cyngor Sir sylw manwl i'r mater gan gymharu'r strwythurau uwch reolaeth a'r strwythurau tâl yn yr Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn trafodaethau maith **PENDERFYNWYD:-**

- **Mai Opsiwn 4 yn yr adroddiad yw'r opsiwn a ffefrir;**

- **Bwrw ymlaen i benodi Prif Weithredwr newydd i'r Cyngor fel blaenoriaeth;**

- **Dynodi swydd y Prif Weithredwr yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig ac yn Swyddog Canlyniadau i'r Cyngor;**

- **Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Penodi hysbysebu, asesu ymgeiswyr, llunio rhestr fer, cyfweld ymgeiswyr ac argymell unigolyn cymwys a benodir gan y Cyngor llawn;**

- **Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Penodi dderbyn cymorth ymgynghorol allanol, os yw'n dymuno, i roi cyngor ar y broses asesu ond gan gadw costau darpariaeth o'r fath cyn ised â phosib;**

- **Gofyn am arweiniad a sylwadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynglŷn â'r strwythur cyflog ar gyfer swydd y Prif Weithredwr;**

- **Bod swyddi statudol y Swyddog Cyllid Adran 151 a'r Swyddog Monitro yn cael eu hymgorffori o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**